# Profiadau a barn pobl ifanc yng Nghymru ar fyw mewn gwasanaethau cartrefi gofal sy'n gweithredu heb fod wedi'u cofrestru

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)**
**Dr Sophie Hallett, Prifysgol Caerdydd.**

**Mehefin 2025**

# 1. Trosolwg a phrif negeseuon

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion o ymchwil a fu'n edrych ar safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc o fyw mewn darpariaeth heb ei rheoleiddio a chartrefi gofal sy'n gweithredu heb fod wedi'u cofrestru (OWRs). Comisiynwyd yr astudiaeth gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Cymerodd 11 o bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed ran yn yr astudiaeth. Roedd y rhain yn dod o saith awdurdod lleol ar draws pump o'r rhanbarthau diogelu yng Nghymru. Y nod oedd rhoi dealltwriaeth mawr ei hangen o brofiadau pobl ifanc a'u safbwyntiau. Mae hyn yng nghyd-destun pryder gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch y cynnydd bach ond arwyddocaol yn y defnydd o ddarpariaeth cartrefi gofal sy'n gweithredu heb gael eu cofrestru, a'r adnoddau sydd gan ddarpariaeth o'r fath i ddiogelu plant a diwallu eu hanghenion.

## Cefndir

1.2. Mae cartrefi OWR yn cynnwys beth allai gael eu galw'n lleoliadau heb eu rheoleiddio. Gall y rhain fod yn drefniadau byrfyfyr neu frys ar ffurf rhentu llety gwyliau tymor byr neu drefniadau rhentu eiddo preifat neu gan y cyngor. Gall cartrefi OWR gael eu rheoli gan ddarparwyr preifat neu'r awdurdod lleol perthnasol. Mewn rhai achosion, gwneir trefniadau i gefnogi un plentyn neu berson ifanc, a bydd staff yn rhoi cefnogaeth yn unol ag unrhyw gymarebau diogelu a bennwyd (e.e. dau aelod staff i un plentyn). Gall staff o'r fath fod yn barhaol ac o'r awdurdod lleol, neu'n ddarparwyr preifat, neu'n staff asiantaeth. Mewn rhai achosion, trefniadau'r awdurdod lleol yw'r rhain, sydd fwy neu lai'n rhedeg lleoliad fel cartref plant sydd heb ei gofrestru eto, ac mae tîm staff parhaol yn cefnogi mwy nag un plentyn neu berson ifanc.

1.3. Mae'n drosedd darparu gwasanaeth rheoleiddiedig sydd heb ei gofrestru[1]. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sef rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n rheoli trefniadau cofrestru cartrefi gofal ac yn monitro ac yn arolygu darpariaeth cartrefi gofal. Mae AGC yn nodi mai un o brif swyddogaethau'r rôl hon a phwrpas cofrestru yw gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu ac yn cael gofal o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion lles, gofal a chymorth, ac yn sicrhau canlyniadau personol da.[2].

1.4. Yn eu hadroddiad am gartrefi OWR yng Nghymru[3], mae AGC yn cydnabod yr her i awdurdodau lleol o ran cyflawni eu dyletswyddau diogelu i roi llety diogel ac addas i blant sy'n cael gofal[4]. Deellir bod trefniadau OWR yn digwydd yng nghyd-destun diffyg darpariaeth ac anawsterau wrth ddod o hyd i ddarpariaeth addas ar gyfer plant ag ystod o anghenion cymhleth neu sy'n destun gorchymyn lles. Mae'r adroddiad yn manylu ar sut mae AGC yn 'edrych ar bob achos mewn modd cymesur wrth wneud pob penderfyniad gorfodi' (t.6), o ystyried yr heriau hyn.

1.5. Ar wahân i adroddiad AGC, prin yw'r dystiolaeth ar ddefnyddio cartrefi OWR yng Nghymru[5]. Mae'r hyn yr ydym yn ei wybod gan blant a phobl ifanc sydd wedi byw neu sydd yn byw

---

[1] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Adran 5.

[2] AGC (2019) *Fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, a gwasanaethau cymorth cartref* Hawlfraint y Goron.

[3] CIW (2023) *Adroddiad ar gartrefi gofal i blant sydd heb gofrestru 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.* Hawlfraint y Goron.

[4] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Adrannau 75, 78 a 79.

[5] Mae hyn yn debyg i'r dystiolaeth sydd ar gael yng ngwledydd eraill y DU a gyhoeddir gan, er enghraifft, OFTSED yn Lloegr.

mewn cartrefi OWR yn anecdotaidd yn bennaf neu heb ei gyhoeddi, ac yn cael ei rannu drwy adborth i awdurdodau lleol[6]. Mae dadansoddiad na chafodd ei gyhoeddi o adolygiad achos a gynhaliwyd gan ADSS yn 2023/4 a oedd yn cynnwys wyth o bobl ifanc yng Nghymru a gefnogwyd drwy gartrefi OWR[7], yn dynodi'r canlynol:

1.5.1. Roedd gan bobl ifanc lefelau uchel o anghenion seicolegol, emosiynol ac ymddygiadol, ac roeddent yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), timau ysbytai iechyd meddwl clinigol neu wasanaethau seicoleg eraill, yn ogystal â chyfiawnder ieuenctid. Cyn mynd i'r cartref OWR, roedd pobl ifanc wedi'u rhoi mewn trefniadau diogel (un o dan orchymyn troseddol), neu wedi'u cadw yn y ddalfa oherwydd eu hiechyd meddwl. Roedd saith o'r wyth yn destun Gorchymyn Amddifadu o Ryddid (DoL).

1.5.2. Defnyddiwyd cartrefi OWR yn bennaf oherwydd yr angen i 'gamu i lawr' o drefniadau diogel neu drefniant ysbyty/adrannol, neu mewn ymateb i rybudd brys gan leoliad preswyl, neu o ganlyniad i drefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn methu. Ym mhob achos, gwnaed nifer o chwiliadau ymlaen llaw i ddod o hyd i lety addas o fewn y ddarpariaeth bresennol, ac nid oedd yr un ohonyn nhw'n gallu darparu ar gyfer y person ifanc a'i anghenion. Barnwyd bod angen trefniadau cymhareb staffio 5:1 neu 3:1 ar bob un o'r bobl ifanc ond un. Roedd trefniadau OWR ar waith am rhwng pump a 12 mis neu roedden ar waith ar yr adeg y cynhaliwyd dadansoddiad yr adolygiad achos. Parhaodd tri o'r trefniadau, ond fel cartrefi newydd eu cofrestru. Roedd dau drefniant OWR ar waith ac roedd un o'r cartrefi hyn yn y broses o gael ei gofrestru. Dychwelodd un person ifanc adref. Aeth un person ifanc i sefydliad troseddwyr ifanc ac aeth un i gyfleuster diogel.

1.5.3. Dywedodd o leiaf pedwar o'r wyth person ifanc wrth y staff eu bod am I'r trefniant barhau a/neu eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapusach yn y cartref OWR. Barnwyd bod o leiaf un o'r lleoliadau yn niweidiol i un o'r bobl ifanc.

1.6. O ystyried y cyd-destun hwn ynghylch defnyddio cartrefi OWR a'r diffyg gwybodaeth gan bobl ifanc, comisiynwyd yr ymchwil hon i roi dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc o gartrefi OWR a'u barn arnynt, gan roi tystiolaeth i lywio penderfyniadau ynghylch defnyddio cartrefi OWR a'u hadnoddau i ddiogelu plant a phobl ifanc a diwallu eu hanghenion.

---

[6] Ni chafwyd unrhyw ganlyniadau i chwiliadau yng nghronfa ddata SCOPUS neu gyfnodolion gwaith cymdeithasol y DU am ymchwil neu erthyglau wedi'u cyhoeddi am blant neu bobl ifanc sydd â phrofiad o drefniadau OWR.

[7] ADSS. 2024. *OWR initial case review analysis – confidential and unpublished report*. ADSS.

## Prif ganfyddiadau

1.7. Mae gan bobl ifanc brofiadau cymysg o drefniadau OWR. Fodd bynnag, fe rannodd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc hyn safbwyntiau hynod gadarnhaol gan bwysleisio pa mor bwysig y mae’r cartrefi hyn wedi bod iddyn nhw a'u lles a'u deilliannau posibl yn y dyfodol.

1.8. Yn ôl pob golwg, nid yw statws trefniant cartref gofal o ran a ydyw wedi’i gofrestru neu heb ei gofrestru, yn ddangosydd allweddol o brofiadau o ansawdd i blant a phobl ifanc. Yn hytrach, y prif ffactorau i blant a phobl ifanc yw eu perthnasoedd â staff, a’r ymdeimlad bod y ddarpariaeth wedi’i threfnu o amgylch eu hanghenion.

1.9. Mae angen pobl hyfforddedig a medrus ar blant a phobl ifanc mewn darpariaeth gwasanaethau gofal ac mae angen iddyn nhw allu mynd i’r afael â’u hanghenion emosiynol, cymdeithasol ac anghenion lles eraill. Hefyd, mae angen staff arnyn nhw sy'n gallu deall eu hanghenion er mwyn gwybod sut i ymateb i’w hymddygiadau heb ddefnyddio grym ac mewn ffyrdd sy'n eu helpu.

1.10. Mae defnyddio staff asiantaeth yn rhan o ddarpariaeth cartrefi OWR yn peri anawsterau. Mae canfyddiadau'n dynodi bod diffyg sgiliau ymhlith y gweithlu hwn a bod safon a lefel y gofal a ddarperir i blant a phobl ifanc yn peri pryder. Mae rhai canfyddiadau tebyg, fodd bynnag, yn ymwneud â gofal a chymorth staff mewn darpariaeth gofrestredig.

1.11. Mae'n amlwg o’r canfyddiadau hyn y gallai fod problemau mewn perthynas â diwylliant ‘diogelwch yn gyntaf’ mewn gofal preswyl sy’n blaenoriaethu anghenion eraill o ran gofal, cymorth a lles. Mae hyn yn ymwneud â’r ddarpariaeth ei hun a’r amgylchedd a grëwyd ar gyfer plant a phobl ifanc, ac ymatebion sy’n rhoi pwyslais ar risg wrth reoli ymddygiadau.

# 2. Yr astudiaeth

## Cyfranogwyr

2.1 Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 11 o bobl ifanc o saith awdurdod lleol ar draws Cymru, gyda chynrychiolaeth o bump o chwe rhanbarth y bwrdd diogelu. Mae’r holl bobl ifanc a gymerodd ran wedi cael eu cefnogi trwy drefniadau cartrefi OWR o leiaf unwaith. Roedd rhai o’r bobl ifanc wedi cael sawl profiad o ddarpariaeth OWR. Roedd pump yn byw mewn trefniadau heb eu cofrestru adeg yr ymchwil. Mae eu profiadau mewn cartrefi OWR yn cynnwys: cartrefi gofal statudol oedd yn gwneud cais i gofrestru ar y pryd; trefniadau rhentu preifat, neu lety gwyliau tymor byr, a reolir gan ddarparwyr preifat neu'r awdurdod lleol ac a gefnogir gan aelodau o dîm gwasanaethau preifat neu blant parhaol, staff arall yr awdurdod lleol, neu staff asiantaeth.

2.2 Roedd y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Roedd pedwar yn 14 oed; tri yn 15 oed; dau yn 16 oed; un yn 17 oed; ac roedd un newydd droi’n 19 oed erbyn iddo gymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd pedair yn ferched a saith yn fechgyn/ddynion ifanc, gan gynnwys dau ddyn ifanc traws. Roedd naw o'r bobl ifanc dan ofal yr awdurdod lleol; roedd un wedi dychwelyd adref yn ddiweddar i fyw gyda’i deulu; roedd un bellach yn cael ei gefnogi i fyw’n annibynnol.

## Moeseg a dull

2.3 Pwyllgor Moeseg Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd a roddodd y camau craffu a’r gymeradwyaeth foesegol ar waith. Dewis y bobl ifanc oedd cymryd rhan ai peidio, ac roedd pob un ohonyn nhw’n awyddus i wneud hynny. Cynhaliwyd yr ymchwil yng nghartrefi'r bobl ifanc. Aeth rhywun gyda phob person i’r cyfarfod cyntaf a gofynnodd wyth o’r bobl ifanc am gael staff gyda nhw yn yr ystafell yn ystod y cyfweliad; roedd rhiant un person ifanc yno am ran o'r cyfweliad. Roedd yn well gan ddau berson ifanc gymryd rhan heb i neb arall fod yn bresennol.

2.4 Defnyddiodd yr ymchwil gyfweliadau lled-strwythuredig, yn ogystal â gweithgareddau creadigol gyda rhai o'r bobl ifanc, er mwyn eu helpu i rannu eu barn. Parhaodd y cyfweliadau rhwng 25 ac 85 munud, ac roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw’n awr o hyd. Cafodd cyfweliadau eu harwain gan y pedwar maes ymchwil canlynol:

1. Profiadau pobl ifanc o fyw mewn lleoliadau/cartrefi heb eu cofrestru.
2. Anghenion pobl ifanc ar yr adeg y gwnaethon nhw symud i mewn i'r trefniadau/cartrefi hyn a byw ynddyn nhw.
3. Beth sy'n arwain at sefyllfa pan fo pobl ifanc yn cael eu cefnogi yn y trefniadau/cartrefi hyn.
4. Pa fath o ddarpariaeth mewn cartrefi gofal ddylai fod ar gael i bobl ifanc/beth yw’r negeseuon pwysig i bobl sy'n gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth gofal a chartrefi gofal i bobl ifanc.

# 3. Canfyddiadau

## Safbwyntiau pobl ifanc ar drefniadau OWR

3.1 Mae'r rhan gyntaf hon yn manylu ar safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc o fyw mewn cartrefi OWR. Ar y cyfan, pwysleisiodd y bobl ifanc pa mor bwysig a phositif oedd eu hamser yn cael gofal mewn cartrefi OWR. Fodd bynnag, rhannwyd rhai profiadau negyddol hefyd, ac ystyriwyd y rhain ochr yn ochr â phrofiadau o ofal mewn cartrefi cofrestredig.

**Trefniadau OWR fel profiad cadarnhaol**

3.1.1 Roedd disgrifiadau'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc o fyw mewn trefniadau OWR yn rhai hynod gadarnhaol. I'r bobl ifanc hyn, roedden nhw'n awyddus i amlygu pa mor bwysig oedd y ddarpariaeth hon i'w lles emosiynol a chorfforol, y teimlad bod pobl yn gofalu amdanyn nhw, eu cynnydd o ran addysg, a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Fe siaradon nhw am deimlo bod pobl yn gofalu amdanynt, teimlo'n hapus, bod yn rhan o bethau maen nhw'n eu mwynhau, dysgu eto a chael cynlluniau ar gyfer bod yn ôl yn yr ysgol, yn ogystal â nodau personol. Mynegodd tri o'r bobl ifanc pa mor bwysig oedd eu hamser yn byw yn y cartref OWR yn y modd mwyaf di-flewyn-ar-dafod, gan ddweud eu bod yn teimlo na fydden nhw'n fyw mwyach oni bai am y ddarpariaeth hon, fel y clywn gan Fred a'i fam:

*Fred (16 oed): Oni bai am [y cartref OWR], ni fyddwn i'r un person nawr. Felly, oni bai am [y cartref OWR], byddwn i'n dal i, mae'n debyg.*

*Mam Fred: Dwi ddim hyd yn oed yn gwybod ble fyddai e. Rwy'n meddwl y byddai e wedi marw, oherwydd dyna oedd beth oedd e'n ei wneud (yn oedi)*

*Fred: Ie.*

*Mam Fred: Roedd yn beryglus. Roedd e (yn oedi).*

*Fred: Ie, oni bai am [y cartref OWR], rwy'n ei werthfawrogi gymaint. A'r bobl oedd yno, rwy wir yn gwerthfawrogi popeth maen nhw wedi'i wneud i mi.*

3.1.2 Yn gysylltiedig â hynny, roedd pob un o'r bobl ifanc hyn yn awyddus i fynegi bod eu hymddygiadau wedi newid o ganlyniad i'r cartref OWR, gan nodi na fu unrhyw 'achosion' o drais tuag at eiddo neu bobl eraill yn ystod eu hamser yno, nac ymddygiad fel niweidio'i hunain, rhedeg i ffwrdd neu fynd ar goll. Fe wnaethon nhw egluro eu bod nhw'n teimlo o dan lai o straen, yn hapusach ac yn fwy gobeithiol o ganlyniad i'r gofal a'r gefnogaeth y cawson nhw yn y cartref OWR, fel mae Flo yn ei ddweud wrthym:

*Mae wedi bod yn llawer gwell. Dim rhedeg i ffwrdd, creu trafferth, beth arall? Heb ddifrodi dim. Yn ôl i mewn i bêl-droed a chwaraeon. Ie, mynd i wylio'r gemau [pêl-droed], gwneud gweithgareddau dwi eisiau eu gwneud. Yn y bôn. Anghofiais i ddweud, yn y bôn, rydych chi'n cael cynllun personol, ac ar y cefn mae gennych chi'ch nodau. Ac yna mae gennych chi'r ffyrdd y maen nhw am eich helpu.*
*Flo, 14.*

3.1.3 O ran y bobl ifanc sydd wedi cael profiadau hynod gadarnhaol o ddarpariaeth OWR, roedd eu pwyslais ar y gofal a'r parch a gawson nhw gan staff, a'r ffyrdd y gwnaeth staff ddiwallu eu hanghenion. Eglurwyd bod hyn yn bwysig iawn i'r bobl ifanc. Staff gwaith cymdeithasol ac awdurdodau lleol, a'r rhai a gyflogir drwy ddarparwyr preifat, oedd y staff a ddisgrifiwyd yn gadarnhaol. Disgrifiodd y bobl ifanc y staff fel pobl 'a oedd yn dangos parch', 'ysbrydoledig', 'caredig', a 'chysurlon' a fyddai'n siarad â nhw

a dod i'w hadnabod nhw. Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc achosion pan oedd y staff wedi dangos gofal tuag atyn nhw, drwy siarad â nhw am eu teimladau a'u perthnasoedd allweddol, neu sylwi ar eu diddordebau a'u hannog. Yn hollbwysig i'r bobl ifanc, roedden nhw'n teimlo nad oedd y staff hyn yn eu barnu, eu bod yn 'gallu deall pethau o wahanol safbwyntiau', yn deall eu hanghenion neu eu 'sbardunau', ac o'r herwydd nad oedden nhw'n gwneud rhagdybiaethau amdanyn nhw o ran eu hymddygiad; yn lle hynny, roedd y staff yn gwrando arnyn nhw ac yn hyblyg ac yn rhesymol o ran y 'rheolau', gan addasu ar gyfer anghenion y bobl ifanc a darparu ar eu cyfer. Dyma rywbeth y mae Lydia yn ei esbonio isod wrth ddisgrifio pwysigrwydd y gefnogaeth a roddir gan y staff yn y cartref OWR:

*"Dwi'n meddwl ei fod yn fwy [am y] gefnogaeth a'r cyfleoedd, i ni blant. Oherwydd dwi'n meddwl ei fod yn fwy fel man preswyl i mi, ond mae'n llawer gwell. Ac maen nhw'n wir yn gwrando arnoch chi, ac maen nhw'n ystyried eich anghenion o ddifrif, a'r hyn rydych chi'n ei ddweud mewn gwirionedd. Felly, nid yw fel gorfod dilyn rheol ar ôl rheol ar ôl rheol. Nid yw fel bod gan bawb yr un rheolau. Mae fel bod gan bawb eu pethau gwahanol. Ac maen nhw'n cael mynd allan, ac os ydyn nhw'n drist neu beth bynnag, maen nhw'n cael mynd i'w fflat, neu siarad â staff. Felly, mae'n sefyllfa braf."*
*Lydia, 17.*

3.1.4 Yn ogystal â'r ffyrdd yr oedd staff yn ymgysylltu â nhw ac yn cynnig cefnogaeth emosiynol, disgrifiodd y bobl ifanc hefyd bwysigrwydd y gefnogaeth fwy ymarferol y cawson nhw gan staff. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran cael gweithgareddau dyddiol, trefn wythnosol, a chefnogaeth ar gyfer addysg. Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc hefyd sut roedden nhw'n gwerthfawrogi bod y staff yn dangos sgiliau bywyd iddyn nhw fel sut i goginio neu ddefnyddio peiriant golchi dillad, a chael lifftiau a rhywun yn mynd gyda nhw i apwyntiadau neu i'w cefnogi wrth ymgymryd â gweithgareddau. Mae Fred yn egluro isod y drefn arferol yn y cartref yr oedd yn ei gwerthfawrogi a beth mae'n ei olygu iddo:

*Byddwn i'n deffro, ac yna bydden nhw hyd yn oed yn gwneud brecwast i mi cyn i mi ymolchi a gwisgo neu beth bynnag. Felly, byddwn i'n cael brecwast, ac yna'n cael cawod. Ac yna byddwn i'n chwarae fy ngêm am ychydig. Ac yna, efallai byddai'n rhaid i mi wneud gweithgaredd, felly byddwn i'n mynd i chwarae golff, cyn mynd i siopa bwyd, ac yna'n dod adref. Ac ie, dyna ni, fwy neu lai. Ac yna bob dydd Gwener, os oeddech chi wedi ymddwyn yn dda, byddech chi'n cael tecawê, unrhyw beth roeddech chi ei eisiau. Doeddwn i byth yn drist, dyma'r gorau dwi erioed wedi bod, a dweud y gwir.*
*Fred, 16.*

3.1.5 Pwynt cysylltiedig arall a godwyd gan yr holl bobl ifanc oedd y ffaith nad oedd grym yn cael ei ddefnyddio. Cafodd pwysigrwydd cael rhywun i wrando arnyn nhw a'u deall ei ystyried yn erbyn profiadau a rannwyd gan yr holl bobl ifanc am staff yn defnyddio grym tuag atyn nhw mewn gofal preswyl cofrestredig eraill. Soniodd yr holl bobl ifanc am brofiadau blaenorol o staff a oedd yn barod i ddefnyddio grym, gan ddisgrifio nifer o achosion lle gwaethygodd sefyllfaoedd yn gyflym o ganlyniad i hynny. Fe ddisgrifiodd nhw hyn fel rhywbeth a oedd yn wahanol yn y cartrefi OWR a'i fod wedi rhoi profiadau cadarnhaol ac wedi newid y ffyrdd yr oedden nhw'n ymateb i staff:

*"Newydd symud i mewn yma [y cartref OWR], ac yn syml iawn, roedd yn well. Oherwydd roedd y staff a phethau eraill yn well. Yn lle bod yn boen yn y pen ôl ac yn ffiaidd, yn peidio â gadael i mi fynd allan ac ati (oedi). [Yn flaenorol] fydden nhw ddim yn gadael i mi fynd allan, ac roedden nhw'n fy ngorfodi i ffwrdd o'r drws. Yma maen nhw jyst yn fwy cyfeillgar. Ie, yn sgwrsio â mi ac ati. Oherwydd weithiau bydden nhw (oedi) bydd rhai pobl yn eich barnu chi oherwydd eich bod chi mewn gofal ac ati,*

*bydden nhw'n eich barnu chi.”*
*Caleb, 14.*

3.1.6 Rhannodd y bobl ifanc hefyd bwysigrwydd lleoliad y cartref OWR, gan werthfawrogi’r ffaith ei fod 'ar stryd cyffredin', yn agos at deulu a ffrindiau, yn agos at fysiau neu o fewn pellteroedd cerdded i siopau a chyfleusterau ac nid 'wedi'i guddio'. Disgrifiodd dau o'r bobl ifanc hefyd sut y gall bod ymhell o deulu a ffrindiau ac mewn ardal wledig fod yn ffordd ddefnyddiol o ‘ailosod’ ac yn 'seibiant i ffwrdd o bethau' os ydyn nhw'n gwybod y bydd am gyfnod byr. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y bobl ifanc yn hoffi bod y tai rhent a'r tai gwyliau yn dai nodweddiadol yn y gymuned, ac roedd hyn yn golygu eu bod yn teimlo fel 'cartrefi mwy normal' iddyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith nad oedden nhw’n cynnwys rhai o'r nodweddion yr oedden nhw wedi dod i'w disgwyl mewn cartrefi gofal, yn enwedig cloeon ar bob drws a rhannau o gartrefi cofrestredig yn anhygyrch. Mae’r canlynol gan Jax yn nodweddu’r pwyntiau hyn:

*“Does dim cloeon ar bob drws. Yma, mae clo ar y drws ffrynt, mae clo ar y drws cefn, mae clo ar y ddwy ystafell ymolchi. Felly, does dim ffordd mewn gwirionedd o gyfyngu os oeddwn i eisiau mynd i lawr y grisiau i'r ystafell hon, ac rwy'n teimlo, pe byddai staff preswyl [cofrestredig] yn cael y dewis, byddai llawer o bobl yn cloi popeth yn y nos, fel pob drws sengl. Dwi wedi cael profiadau lle mae hynny wedi digwydd mewn gwirionedd. A'r hyn sy'n braf yw mod i ddim yng nghanol nunlle, oherwydd mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau preswyl [cofrestredig] yng nghanol nunlle, yn amlwg. Rwy’n gallu cerdded yn syth allan drwy'r drws, mae siop i lawr y ffordd rwy’n gallu cerdded iddi heb orfod cerdded am tua hanner awr. Mae gen i ffrind sy'n byw i lawr y stryd roeddwn i'n ei adnabod cyn i mi hyd yn oed ddod i'r lleoliad hwn. Ddwy funud i ffwrdd, cyn gynted ag y cyrhaeddais i yma, nes i ddweud, dwi'n meddwl fy mod i'n byw wrth dy ymyl di nawr.*
*Jax, 16.*

**Profiadau negyddol o drefniadau OWR**

3.1.7 Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc (hefyd) brofiadau negyddol iawn o gartrefi OWR, gan bwysleisio bod y gofal a’r ddarpariaeth yn annigonol. Ym mhob un o’r profiadau negyddol o gartrefi OWR, disgrifiwyd y rhain hefyd fel rhai a oedd yn cael eu staffio gan weithwyr asiantaeth (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol fel staff asiantaeth). Yn sgîl eu profiadau gyda staff asiantaeth yn bennaf a'r diffyg gofal a ddangoswyd tuag atyn nhw y nodwyd y cartref OWR fel profiad gwael. Rhannodd y bobl ifanc rai straeon a oedd yn peri pryder am staff yn esgeuluso eu hanghenion. Roedd yr enghreifftiau'n amrywio o ddiffyg parodrwydd i gyfathrebu neu ymgysylltu â nhw, a diffyg dealltwriaeth neu bryder; i straeon am staff yn 'yfed yn y gwaith', dweud wrth y bobl ifanc eu bod yn 'wastraff adnoddau', a staff yn meddwl 'y gwaethaf' ohonyn nhw’n ganiataol oherwydd yr hyn yr oedd wedi’i ysgrifennu amdanyn nhw yn eu ffeil. Ychydig iawn o berthynas a gafodd ei meithrin gyda'r staff hyn, ac roedd y diffyg cysondeb o ran staff yr asiantaeth a oedd yn gofalu am y bobl ifanc yn gwneud y sefyllfa’n waeth. Nodwyd bod profiadau o'r fath yn achosi straen, pryder, ofn a diffyg ymddiriedaeth. Mae hyn i’w weld yn y sylwadau canlynol gan Flo a Josie:

*“Ac unwaith, pan nad oeddwn i'n gwybod pwy oedden nhw, wnaethon nhw ddim hyd yn oed cyflwyno eu hunain i mi. Wnaethon nhw ddim dweud dim byd wrtha i. Ac roeddwn i’n eistedd i lawr y grisiau, a dywedon nhw wrtha i, ydyn ni'n mynd mas i unrhyw le? Nes i ddweud, na, dwi ddim yn teimlo fel gwneud hynny heddiw. Fe waeddodd arna i a dweud ein bod ni yma i'ch cefnogi chi, nid i gael ein casáu. Nes i ddweud mod i erioed wedi dweud mod i'n eich casáu chi. Felly, fe wnaeth hynny wneud i mi deimlo ychydig yn drist. Roedd fy mam i fod i ddod draw y diwrnod hwnnw*

*hefyd. Doedd fy fam ddim yn gallu dod. Felly, fe wnaeth hynny bethau'n waeth."*
*Flo, 14.*

*“Yn syml, roedden nhw i gyd yn staff asiantaeth, felly byddai pobl wahanol bob dydd. Ac roedd rhai ohonyn nhw'n iawn. Ond roedd rhai ohonyn nhw'n anghwrtais iawn. Ac yn ystyfnig, a doedd dim ots ganddyn nhw… roedd hyn yn achosi straen, oherwydd wedyn, does gennych chi ddim syniad pwy sy'n dod nesaf. Felly, dydych chi wir ddim yn gwybod pwy fydd yn y tŷ. Gallai fod rhywun yn y tŷ sydd wedi lladd nifer o bobl, dydych chi byth yn gwybod.”*
*Josie, 14.*

3.1.8 Roedd bwyd a'r diffyg prydau bwyd 'go iawn' wedi'u coginio ar eu cyfer hefyd yn arbennig o bwysig i'r bobl ifanc, ac roedd yn rhywbeth a ddisgrifiwyd yn yr un modd ym mhob enghraifft o brofiadau gwael a rannwyd o gartrefi OWR. Fe soniodd y bobl ifanc am 'gael pizza bob dydd', neu gael bwyd tecawê, neu am staff yn gwrthod coginio iddyn nhw. Roedd y broblem o ran bwyd, a oedd yn amlwg yn bwysig i'r bobl ifanc hyn, i'w gweld, i ryw raddau, fel enghraifft o ddiffyg gofal cyffredinol yn y cartrefi OWR hyn, ac o fethu â diwallu eu hanghenion mwyaf sylfaenol, fel yr eglurodd Ruby:

*“Os staff asiantaeth oedden nhw, doedd dim modd cael hyd yn oed sgwrs gyda nhw. Felly, rydych chi fwy neu lai yn byw mewn tŷ ar eich pen eich hun, a fyddai'n well, a dweud y gwir, ond doeddwn nhw wir ddim yn poeni dim beth oeddech chi'n ei wneud mewn gwirionedd. Maen nhw'n cael Maccies i chi bob dydd yn lle siopa am fwyd. Roedd hyn yn fy ngwylltio achos ro’n i eisiau bwyd go iawn, nid Maccies bob dydd. Gallen ni fod wedi gwneud unrhyw beth a pheidio â phoeni am gael unrhyw gosb, sy'n wael iawn, a dweud y gwir.”*
*Ruby, 15.*

3.1.9 Disgrifiodd pedwar o'r bobl ifanc hefyd gartrefi OWR lle roedd 'llwydni' a’u bod yn 'rhewi', yn 'dywyll' ac yn 'arogli'n ofnadwy', ac yn 'frawychus' ac yn 'ddychrynllyd' am eu bod yn rhy fawr neu ddim fel tai nodweddiadol. Roedd y rhain hefyd yn lleoedd lle nad oedd gan bobl ifanc ddigon o le ar gyfer eu pethau, lle roedden nhw’n cysgu ar fatresi neu ar welyau i blant (llai), ac nad oedd ganddyn nhw ffyrnau na chyfleusterau coginio priodol, na pheiriannau golchi dillad. Wrth ddisgrifio'r lleoedd hyn, rhannodd y bobl ifanc hefyd nad oedden nhw’n lleoedd hapus, ac nid oedd rhai yn teimlo'n ddiogel ynddyn nhw. Yn ôl pob golwg, roedd eu profiadau o’r cartrefi OWR hyn yn gysylltiedig yn ôl pob golwg â’r trefniadau staffio ynddyn nhw a'r gofal a gawson nhw. Dywedodd yr un bobl ifanc eu bod yn 'aros yn y gwely' neu yn eu hystafelloedd 'drwy'r dydd', heb neb i siarad ag ef neu neb yn siarad â nhw, a’u bod yn teimlo nad oedd unman iddyn nhw i fynd. Fel y mae’r canlynol yn ei ddangos:

*“[Roedd yn] lle diawledig. Edrychwch, y tu ôl i'r drws, roedd yn llawn llwydni. Yn rhewi yno drwy'r amser. Roedd hi'n rhewi... Ac roedden nhw [staff] i fod ar ddihun yn y nos. Ac yna dwi wedi cerdded i lawr y grisiau, ac maen nhw'n eistedd yno'n cysgu… roedd fel petai pobl wahanol yno drwy'r amser. Byddwn i'n bwyta pizza bob dydd, oherwydd dyna'r cyfan y bydden nhw'n ei brynu…Roeddwn i'n deffro am 6, 7 o'r gloch fin nos. Roeddwn i’n cysgu drwy'r dydd.”*
*Carter, 15.*

*“Roedd yn fudr iawn, yn fach iawn, doedd dim lle i wneud dim byd, roedd gan yr ystafell fyw deledu a oedd yn gweithio, ond dyna’r cyfan. Felly, gyda'r Airbnbs, roedd gen i dîm [gwasanaethau plant], os yn rhentu, roedd gen i staff asiantaeth. Felly, gyda'r Airbnbs, roedden nhw'n ffyslyd iawn gyda'r lleoedd, byddwn i'n dweud…, roedden nhw i gyd yn cael eu dewis yn ofalus, roedden nhw i gyd yn gyfforddus, roedden nhw'n cael y cyfle i wneud pethau mewn gwirionedd, a pheidio â gorfod bod*

*mewn un ystafell drwy'r dydd, mewn ystafell fach iawn lle nad yw'r goleuadau'n ffycing gweithio.*
*Gabe, 19.*

## Profiadau o ddarpariaeth cartrefi gofal rheoleiddiedig

3.1.10 I saith o'r bobl ifanc, roedd eu profiadau cadarnhaol o gartrefi OWR yn cyferbynnu â'u profiadau hynod negyddol o drefniadau gofal cofrestredig. Roedd y profiadau negyddol hyn a ddisgrifiwyd ganddyn nhw yn cyd-fynd â llawer o'r rhai a nodir uchod. Fe rannodd y bobl ifanc brofiadau anodd gyda staff preifat ac awdurdod lleol mewn cartrefi cofrestredig, a oedd yn debyg i'r rhai a gafwyd gyda staff asiantaeth yn y cartrefi OWR. Fe wnaethon nhw hefyd ddisgrifio'r effaith a gafodd hyn ar eu hiechyd meddwl a'u hymddygiadau. Mae hyn i'w weld yn y pwyntiau canlynol a rennir gan Jax, a Fred:

*"Ok, felly dwi wedi bod mewn 17 o leoliadau gwahanol. Does gen i ddim byd cadarnhaol iawn i'w ddweud am leoedd preswyl [rheoleiddiedig] mewn gwirionedd. Dwi wedi bod yma [yn y cartref OWR] ers 15 mis. A dyma'r cyfnod hiraf dwi erioed wedi'i dreulio, o gymharu ag unrhyw le arall"*
*Jax, 16.*

*"Wel, pan ges i fy rhoi yno [y cartref OWR], fe ddechreuais i sylweddol beth dwi wedi'i wneud, a pham dwi wedi'i wneud a phethau fel 'na. Ac yna pan ges i fy rhoi [mewn gofal cofrestredig], fe gollais i fy mhen hyd yn oed yn fwy. Ond petawn i wedi aros yno [y cartref OWR], mi faswn wedi bod yn iawn. Ond pan es i yno [i'r cartref gofal gofrestru], fe wnaeth hynny waethygu pethau, i ddweud y gwir. Wel, roedd fy mam yn poeni llawer amdano hefyd, oherwydd roeddwn i'n arfer crio. Roeddwn i'n arfer ei ffonio yn mynd yn wallgof ac yn crio a phopeth pan oeddwn i yno [yn y cartref cofrestredig]. Doedd dim tref yno. Roedd rhaid i mi gerdded dwy awr dim ond i fod yn agos [at y ddinas] i gael tacsi i'r orsaf drenau. Ie. Roeddwn i'n arfer cerdded dwy awr, roedd yr eira hyd at fy nghoesau, hyd at fan hyn, ac roeddwn i'n cerdded dwy awr dim ond i ddod adref. A wnes i erioed geisio, doeddwn i erioed yn ddrwg yno [y cartref OWR], oeddwn i? Wnes i erioed greu trafferth unwaith, wnes i erioed cael dadl, wnes i erioed gorfod cael fy atal, wnes i erioed redeg i ffwrdd, dim byd… ro'n i yng nghanol nunlle, yn fy ystafell 24/7, yn gwneud dim. Fe wnes i golli arni'n wael. Roeddwn i'n teimlo mor gaeth a phopeth, roedd yn ofnadwy yno. Roeddwn i yno am amser maith."*
*Fred, 16*

3.1.11 Fe rannodd tri o'r bobl ifanc a gafodd brofiadau negyddol o ddarpariaeth OWR brofiadau cadarnhaol o ddarpariaeth reoleiddiedig. Roedd dau o'r bobl ifanc hyn mewn cartrefi cofrestredig yr awdurdod lleol ac roedd un gyda darparwr preifat. Er nad oedd pob un yn mynegi'r profiadau hyn o reidrwydd drwy ddefnyddio'r un pwyslais neu frys o gymharu â'r rhai a oedd yn awyddus i rannu pa mor bwysig oedd trefniadau OWR iddyn nhw, roedden nhw'n rhannu profiadau cadarnhaol am resymau tebyg iawn. Er enghraifft, fe wnaethon nhw ddisgrifio pwysigrwydd eu perthnasoedd â staff, gwneud gweithgareddau, ac awyrgylch y cartref. Fe ddisgrifiodd Ruby bwysigrwydd ei pherthynas â staff fel bron fel teulu, gan ei bod hi'n teimlo eu bod nhw'n gofalu amdani.

*"Rydych chi'n fwy egnïol, dybiwn i. Dydych chi ddim yn eistedd yn yr ystafell fyw ar eich pen eich hun gyda dau aelod o staff ar hap. Gallwch chi ymlacio yn eich ystafell neu ddod i lawr a gwneud rhywbeth. Mae llawer mwy o weithgareddau, mae yna fwy o hyblygrwydd o ran gweithgareddau hefyd… Mae mwy o ddeinamig teuluol mewn*

*ffordd, wn i ddim sut i'w ddisgrifio. Rydyn ni'n dweud mai'r anifeiliaid anwes yw'r wyrion [y staff], rydyn ni i gyd yn dweud hynny. Hynny ydy, rydych chi'n gofalu amdana i, dwi'n gofalu am gwningen, felly'r gwningen yw eich wyres chi."*
*Ruby, 15.*

## Anghenion pobl ifanc a'u safbwyntiau ar yr hyn a allai arwain at gefnogi pobl ifanc mewn trefniadau OWR

3.2 Mae'r adran hon yn manylu ar safbwyntiau'r bobl ifanc ar yr anghenion oedd ganddyn nhw ar yr adeg y trefnwyd y ddarpariaeth OWR. Yn gysylltiedig â hynny, rydym yn edrych ar unrhyw gyfleoedd a gollwyd cyn hynny ac a allai unrhyw beth fod wedi bod ar waith i'w helpu i barhau i fyw yn eu darpariaeth gofal flaenorol (gofrestredig). Mae canfyddiadau'n dangos bod gan y bobl ifanc anghenion emosiynol, addysgol a lles, a'u bod y diffyg gofal a chefnogaeth ar eu cyfer wedi effeithio ar eu hymddygiad. Roedden nhw'n teimlo nad oedd pobl yn gallu neu eisiau eu cefnogi o ganlyniad i'w hymddygiad, ac mai dyma'r rheswm a'u harweiniodd at gael eu cefnogi yn y cartrefi OWR.

**Trawma, problemau iechyd emosiynol neu feddyliol**

3.2.1 Disgrifiodd bron pob un o'r bobl ifanc fod ganddyn nhw anghenion emosiynol, trawma heb ei ddatrys neu broblemau iechyd meddwl a bod hyn yn arwyddocaol iddyn nhw. Siaradodd rhai o'r bobl ifanc am bethau penodol fel cael trafferth rheoli eu 'dicter' mewn cysylltiad â pherthnasoedd allweddol, gorbryder o bwys, neu gael 'ADHD heb ei ddiagnosio' yn ogystal â chael trafferth ymsefydlu ar adegau, neu gael berthnasoedd anodd gyda bwyd. Siaradodd eraill yn fwy cyffredinol am sut y dylid deall y bydd gan bob person ifanc mewn gofal anghenion emosiynol a bod yr anghenion hyn yn wahanol i bob person ifanc. Yn hollbwysig iddyn nhw, roedden nhw'n teimlo bod diffyg dealltwriaeth neu gefnogaeth gan staff ynglŷn â'r anghenion hyn, a sut i ymateb, ac y gallai'r amgylchedd gofal waethygu'r sefyllfa ar adegau. Er enghraifft, soniodd nifer o bobl ifanc am sut roedden nhw'n cael trafferth bod yn y cartref gyda phobl ifanc eraill ar adegau, gyda'r drysau cloëdig a chael eu hatgoffa'n gyson gan yr hyn sydd o'u campws nad ydyn nhw 'mewn cartref normal'. Roedden nhw hefyd yn teimlo nad oedd gan y rhan fwyaf o'r staff yr oedden nhw wedi dod ar eu traws y gallu i werthfawrogi'r anghenion hyn na'r sgiliau i wybod sut i ymateb mewn ffyrdd a fyddai'n eu helpu. Dyma rywbeth y gwnaeth Gabe ei egluro, isod:

*"Ie, felly roedd gen i gryn dipyn o anghenion ar y pryd, roedd risg y gallwn ffoi, ac roeddwn i'n berygl i mi fy hun. Ar un adeg, dywedon nhw fy mod i'n berygl i eraill, ac fe wnaeth hynny fy nrysu i, achos doeddwn i ddim. Merch flin yn ei harddegau blin, dyna'r cwbl oeddwn i. Ond fe wnes i geisio crogi fy hun gryn dipyn, fe geisiais dorri fy arddyrnau sawl gwaith, fe geisiais gymryd gorddos ar sawl achlysur, fe geisiais yfed cannydd gryn dipyn, fe geisiais wneud llawer o bethau, neidio allan o gar, neidio i'r ffordd, traciau trên, hyn a'r llall. Mae'n un o'r rheini, lle mae'r lefelau'n mynd yn uwch ac yn uwch ac yn uwch. Ni chafodd yr un o'r anghenion eu diwallu, doedd dim un ohonyn nhw wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio â thrawma, doedd dim un ohonyn nhw yn gwybod sut i ddelio â fi'n cymryd gorddos, fi'n hunan-niweidio, fi'n ceisio crogi fy hun. Doedd dim un ohonyn nhw'n gwybod beth i'w wneud. Y cyfan oedden nhw'n gwybod beth i'w wneud, ffonio'r heddlu, mae'r heddlu'n dod i mewn, mae'r heddlu'n dweud y drefn wrthych chi, mae'r heddlu'n dweud na allwn ni wneud dim, gan eich bod chi yn y tŷ. Cael eich gorfodi i'r ysbyty, gefynnau y tu ôl i'ch cefn o flaen pawb."*
*Gabe, 19.*

**Anghenion addysgol**

3.2.2 Siaradodd saith o'r bobl ifanc am beidio â bod mewn addysg a gwybod eu bod 'ar ei hôl hi' o ran eu dysgu. Siaradon nhw am sut roedd symud rhwng gwahanol ofalwyr maeth neu gartrefi gofal wedi tarfu ar eu haddysg, neu eu bod wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, mai prin oedd y cyfleoedd neu'r anogaeth gan staff yn eu cartrefi gofal i gymryd rhan mewn dysgu, neu bod cyfyngiadau arnyn nhw a oedd yn golygu nad oedd modd iddyn nhw ddysgu. Er enghraifft, eglurodd Ruby, cyn iddo fod yn ei chartref gofal presennol, y cymerwyd ei gliniadur oddi arni fel cosb am gael twll yn ei thrwyn heb ganiatâd, gan olygu na allai gymryd rhan mewn dysgu. I rai o'r bobl ifanc, fe egluron nhw nad oedden nhw dal yn deall pam nad oedden nhw wedi bod yn yr ysgol nac yn gwybod yn llawn am gynlluniau ar gyfer dychwelyd i addysg. Dywedodd pob un o'r saith person ifanc hyn eu bod yn gwybod bod bylchau mawr yn eu haddysg a'u bod felly yn poeni am eu haddysg.

*Dwi heb fynd i'r ysgol ers i mi fod yma. Yn y mis cyntaf, na, yn y pythefnos cyntaf roeddwn i yma, roeddwn i fod i wneud fy TGAU. Ond roedd y gweithiwr cymdeithasol yn dweud mod i ddim yn cael, am ryw reswm, ac yna roedden nhw'n dweud mod i'n cael gwneud y TGAU yn y coleg… Dw i eisiau gwneud hynny, ie. Mae hynny'n beth arall hefyd, y ffaith nad yw pobl yn dweud rhyw lawer wrtha i, amdanoch chi'ch hun, os yw hynny'n gwneud synnwyr.*
*Leon, 15.*

*O ran dechrau ailgydio mewn addysg a mynd i'r coleg, oherwydd yn fy lleoliadau eraill, doedden nhw ddim wir yn blaenoriaethu addysg. Felly, rhwng tua saith a 15 oed, wnes i ddim mynychu'r ysgol am y rhan fwyaf o'r amser.*
*Jax, 16.*

**Diffyg pethau i'w gwneud ac angen am le**

3.2.3 Siaradodd yr holl bobl ifanc am gyfnodau anhapus yn gorwedd yn y gwely drwy'r dydd, heb reswm i godi, 'yn eistedd o gwmpas yn gwneud dim' ac yn segur heb ddim i'w wneud. Er na wnaethon nhw gyfeirio'n benodol at hyn fel angen, fe wnaethon nhw hefyd siarad am sut roedd hyn yn cyfrannu at deimladau 'o fynd yn wallgof' neu o 'fod yn sownd yn eu pen' ac o fod wedi diflasu, a bod hyn yn cyfrannu at eu teimladau o iselder, ac 'angen mynd allan'. Mewn perthynas â hynny, fe wnaethon nhw ddisgrifio'r angen i ddianc o'r cartref i gael rhywfaint o le a bod i ffwrdd ohono. Roedd rhai yn destun gorchmynion diogelu a oedd yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw fod yng nghwmni staff bob amser. Disgrifiodd pob un ohonyn nhw sut y byddai ceisio gadael y cartref yn arwain at densiwn a dadleuon mwy dwys gyda staff, neu y bydden nhw'n rhedeg i ffwrdd ac yn 'mynd ar goll' drwy'r amser i allu gadael y cartref. Egluron nhw bod yr ymddygiadau hyn yn rhan o'r rheswm pam maen nhw'n cael eu symud i gartref newydd. Cafodd eu profiadau cadarnhaol o gael eu hannog neu eu cefnogi i wneud gweithgareddau a mynd allan am y diwrnod, neu gael caniatâd i adael y cartref a mynd am dro, eu fframio yn erbyn y profiadau hyn. Fel mae Ruby yn ei ddisgrifio:

*"Mae llawer o gefnogaeth i wneud y pethau rydych chi eisiau eu gwneud, ac mae llawer o hyblygrwydd o ran y pethau hynny hefyd. Oherwydd mewn lleoliadau eraill, pe byddwn i'n gofyn, ga' i fynd am dro i'r man yma, 'na' fyddai'r ateb. Ac yma, os bydda i'n gofyn, bydden nhw'n dweud 'ok' ac yn gofyn gyda phwy hoffech chi fynd, a dwi'n gallu dweud, gyda'r person hwn."*
*Ruby, 15*

**Angen cysylltiad â ffrindiau a theulu**

3.2.4 Disgrifion nhw hefyd yr angen i weld eu teuluoedd a'u ffrindiau, a'r ffaith nad oedd hyn yn cael ei annog weithiau, neu sut roedden nhw mewn cartrefi gofal a oedd mewn mannau lle nad oedd gweld teulu a chwrdd â ffrindiau yn rhwydd yn ymarferol. Dywedodd rhai o'r bobl ifanc nad oedden nhw'n cael caniatâd i ddod â ffrindiau draw i'w cartref na gweld nac aros allan gyda'u ffrindiau, a bod yn rhaid iddyn nhw fod adref erbyn amser a oedd yn afresymol yn eu barn nhw, gan ei fod mor wahanol i'r hyn yr oedd eu ffrindiau yn cael ei wneud. Neu roedden nhw mewn cartrefi a oedd yn gwrthod eu gyrru'r pellteroedd angenrheidiol i weld ffrindiau a theulu. Disgrifiodd rhai o'r bobl ifanc sut y byddai eu ffonau'n cael eu cymryd oddi arnyn nhw gan olygu bod dim modd iddyn nhw gysylltu â'u ffrindiau a'u teulu. Egluron nhw y bydden nhw wedyn yn rhedeg i ffwrdd i allu gweld teulu. Disgrifiodd Fred sut, er bod gorchymyn heddlu yn golygu nad oedd yn cael mynd i ymweld â'i fam a'i nain, roedd staff y cartref OWR yn eu hannog i ddod i'w weld yno. Felly, roedd yn gwybod y gallai eu gweld o hyd, ac roedd hyn yn wahanol i'w brofiad gofal arall a wnaeth wneud iddo redeg i ffwrdd. Mae Lydia yn manylu yma pam mae ffrindiau yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc mewn gofal:

*"Mae angen i chi allu gweld eich ffrindiau. Ac os nad ydych yn cael gwneud hynny, dwi'n meddwl mai dyna, yn hytrach na'r bobl ifanc eu hunain, sy'n eu hysgogi i wneud dewisiadau gwael. Ac rwy'n credu, am eu bod nhw'n teimlo fel eich bod wedi'u rhoi mewn gofal, eich bod chi fwy neu lai wedi cymryd eu bywyd cyfan oddi wrthyn nhw erbyn hyn. Felly, mae fel pe bai bod ganddyn nhw rywbeth ar un adeg, a nawr does ganddyn nhw ddim byd o gwbl. Felly, dwi'n meddwl mai dyna'r frwydr fwyaf. Ond dwi'n meddwl, os ydyn nhw'n gallu, neu os gall rhywun eu gyrru nhw, neu hyd yn oed dalu am docynnau trenau. Ond dwi'n meddwl mai dyna sydd ei angen arnyn nhw. Cysondeb."*
*Lydia, 17.*

**Rheolau caeth, cyfyngiadau a rhagdybiaethau am 'ymddygiadau drwg'**

3.2.5 Mae thema arwyddocaol yn ymwneud â rheolau a chyfyngiadau yn y cartref, a'u hanhyblygrwydd, a'r rhagdybiaethau negyddol a wneir am bobl ifanc pan oedden nhw'n cael eu gweld yn gwrthsefyll y rhain. Ar ben hynny, roedd y bobl ifanc yn teimlo bod pobl yn eu hamau yn syth neu bod rhagdybiaethau negyddol amdanyn nhw, a bod hyn yn golygu nad oedd pobl yn gwrando arnyn nhw nac yn eu deall. Gwelwyd bod y labeli a oedd yn cael eu rhoi ar y bobl ifanc a sut roedden nhw'n cael eu 'hadnabod', yn cyfrannu at hyn – gan fod nifer o'r bobl ifanc yn disgrifio eu hunain fel rhai 'sydd ag enw am fod yn dreisgar' neu'n 'hysbys fel risg uchel'. Fel y manylwyd eisoes, disgrifiodd y bobl ifanc sut roedd y staff yn defnyddio grym fel eu prif ymateb i ymddygiadau, a bod hyn wedi arwain at waethygu trais corfforol – gan y bobl ifanc a'r staff fel ei gilydd. Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod y ffocws ar eu hymddygiadau a bod dim digon o sylw ar eu hanghenion. Er enghraifft, dywedodd yr holl bobl ifanc eu bod yn cael trafferth cysgu yn y nos ac yn dibynnu ar y teledu neu'n defnyddio'u ffôn i'w helpu i fynd i gysgu. Disgrifiwyd y nos hefyd fel yr amser anoddaf iddyn nhw a'r amser pan allai fod yr angen mwyaf arnyn nhw i gael rhywun i'w tawelu a siarad â nhw. Ac eto, disgrifion nhw sut oedd eu drysau'n cael eu cloi a bod larwm arnyn nhw, y ffaith nad oedd staff eisiau siarad â nhw, neu bod y staff yn dweud wrthyn nhw i 'beidio â chreu trafferth neu eu deffro'. Un o'u hanghenion oedd i staff eu gwerthfawrogi fel 'pobl ifanc nodweddiadol', ond iddyn nhw hefyd fod yn ddigon medrus i ddeall pryd roedd angen help ar y bobl ifanc a phryd i wrando arnyn nhw:

*"Wel, yn y bôn, mae gen i'r rheol hon o ran fy iPad. Lle mae'n rhaid i mi ei roi i mewn ar amser penodol. Ac roeddwn i'n mynd i'r gwely'n eitha cynnar. A dwi ddim yn cael*

*defnyddio ffôn clyfar, felly roeddwn i'n mynd i'r gwely'n eitha cynnar. Ac yna fe wnes i roi fy iPad i mewn, cyn i mi orfod gwneud hynny. Ac yna fe ddywedodd rhywun wrtha i fod y person y rhoddais fy iPad iddo yn meddwl bod gen i ffôn, achos mod i wedi rhoi fy iPad i mewn. Dwi ddim yn hoffi pethau fel 'na."*
*Leon, 15.*

*"Pan oeddwn i yn y breswylfa breifat honno, roeddwn i o dan bwysau, wn i ddim sut i'w esbonio. Roedd fel petai'n rhoi pwysau arna i i fynd ar goll, creu trafferth, y cyfan. Ceisiais i siarad â nhw [staff] amdano. Ac roedden nhw'n ymateb fel pe bai fi oedd y tu ôl i hyn i gyd. Felly, chi sy'n cael y bai amdano yn y bôn. Ond dydyn nhw ddim yn gweld yr ochr arall. Felly, dwi'n meddwl y dylen nhw weld y ddwy ochr cyn beirniadu rhywun. Dwi'n teimlo, pan maen nhw'n dweud eu bod nhw'n rhedeg i ffwrdd, maen nhw'n mynd i fod yn rhedeg i ffwrdd am reswm. Mae'n golygu naill ai bod rhywun ddim yn gwrando ar yr hyn maen nhw'n ceisio'i ddweud wrthyn nhw, neu dwi wir ddim yn gwybod. Mae rhywbeth yn digwydd yn y cartref neu rywbeth felly. Nid yw am eu bod nhw'n rhedeg i ffwrdd am hwyl, mae am ryw reswm penodol."*
*Flo, 14.*

**Ymddygiadau fel ymateb i ymdopi**

3.2.6 Yn gysylltiedig â hynny, disgrifiodd yr holl bobl ifanc lawer o enghreifftiau o'r hyn yr oedden nhw'n ei ddeall fel ymddygiadau 'drwg' neu 'wael' neu broblematig, a allai hyd yn oed fod yn niweidiol iddyn nhw eu hunain ar adegau, Gall hyn fod fel ymateb i reolau neu rym, ac i'w hanghenion a'u teimladau, fel ffordd o ymdopi neu gael eu clywed. Er enghraifft, fe ddisgrifiodd y bobl ifanc yn 'mynd ar goll' i gael rhywfaint o le, ymateb i gyfyngiadau drwy fwy o drais, neu fynd ati i ddifrodi eiddo a bod yn dreisgar i eiddo a arweiniodd wedyn at rywun yn gwrando arnyn nhw a chael eu symud. Nodweddir hyn gan y sylw canlynol gan Lydia, sy'n egluro nad anghenion emosiynol neu geisiadau am gymorth yn aml sydd y tu ôl i batrymau ymatebion i bobl ifanc mewn gofal. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn dysgu mai trwy drais yn erbyn eiddo neu bobl eraill, neu drwy ymddygiad 'risg uchel', y bydd staff neu wasanaethau cymdeithasol yn cymryd camau:

*"Roedd yn rhaid i mi gael fy arestio yn y pen draw i allu gadael y tŷ hwnnw. Felly, fe wnes i ddifrod troseddol i'r tŷ er mwyn dianc mewn gwirionedd. Oherwydd roedd yn effeithio ar fy mywyd cymaint. Ac, wyddoch chi, fe wnes i hyd yn oed roi fy hun yn yr ysbyty yn flaenorol oherwydd hynny. Ac, wyddoch chi, roedd wir yn effeithio arna i. A doedd neb yn gwrando, felly fy ymateb i oedd, eich problem chi yw hon. Ac fe ges i fy anfon i gael triniaeth hyd yn oed, felly roedd y cyfan yn wallgof. Felly, allwch chi ddim fy meio i pan nes i ofyn am help, a wnaethoch chi ddim ei roi i mi. Ac rwy'n credu mai dyna'r peth pwysicaf mewn gofal, a lleoliadau, mae angen i chi wrando ar blant. Ac os na wnewch chi hynny, allwch chi ddim disgwyl yr annisgwyl ganddyn nhw. Allwch chi ddim disgwyl iddyn nhw fod yn dda. Allwch chi ddim ddisgwyl iddyn nhw fod yn iawn yn feddyliol eu hunain. Felly, dwi'n meddwl mai dyna'r peth mwyaf... Ac rwy'n credu bod llawer o blant, y rheswm pam maen nhw'n mynd i drafferthion yw am eu bod nhw'n teimlo bod yn rhaid iddyn nhw fod yn ddrwg i gael yr hyn maen nhw ei eisiau, neu ddianc, neu gael rhywbeth gwahanol. Ac mae'n drist, ond mae'n wir."*
*Lydia, 17.*

3.2.7 Roedd y bobl ifanc o'r farn mai eu hymddygiad oedd i'w gyfrif am eu trefniadau OWR a'r ffaith eu bod yn bobl ifanc na allai staff a chartrefi ymdopi â nhw na darparu ar eu cyfer. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn deall mai arnyn nhw oedd y bai am hyn. Fodd bynnag, mae eu naratifau yn dangos bod ganddyn nhw anghenion lles a gofal a chymorth sydd heb eu diwallu hefyd. Mae hyn, ynghyd â'r diwylliant yn y cartrefi rheoleiddiedig a oedd fel arfer yn ymateb i ymddygiad yn gyntaf yn hytrach nag

anghenion, yn creu’r naratif bod y bobl ifanc hyn yn arbennig o broblematig. Gall hyn arwain at gartrefi gofal yn gwrthod eu derbyn. Mae hefyd yn bosibl bod cartrefi rheoleiddiedig yn cynnig amgylchedd a gweithlu nad ydyn nhw bob amser yn addas i gadw'r bobl ifanc hyn yn ddiogel ac yn diwallu eu hanghenion.

## Sut ddarpariaeth y dylai cartrefi gofal ei rhoi i blant a phobl ifanc yng Nghymru

3.3 Mae'r adran olaf hon am y canfyddiadau yn amlinellu'r negeseuon a rannodd pobl ifanc ynglŷn â pha ddarpariaeth y dylai cartrefi gofal da ei rhoi i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r negeseuon hyn yn dilyn ymlaen o'r canfyddiadau a ystyriwyd uchod.

3.3.1 Mae'r bobl ifanc am gael staff gofalgar proffesiynol sy’n gwrando arnyn nhw a'u cefnogi. Maen nhw am i’r staff ddeall beth mae'n ei olygu i bobl ifanc fod yn ddibynnol arnyn nhw am eu gofal, ac i staff fod yn dosturiol ac yn garedig wrthyn nhw. Maen nhw hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu, nid dim ond yr angen i gael eu diogelu. Mae 'proffesiynol' yn y cyd-destun hwn yn golygu staff sy’n gallu rhoi eu problemau personol eu hunain neu eu trafferthion mewn perthynas â’r rôl o'r neilltu. Oni bai eu bod yn gallu gwneud hynny, gall arwain at rai o'r camau amhriodol neu’r diffyg ymgysylltiad â phobl ifanc a nodwyd uchod, ond nid bod mor broffesiynol i'r graddau eu bod yn amhersonol a heb empathi tuag at bobl ifanc.

*“rhaid i’r bobl hyn fod yn broffesiynol, ond hefyd, rhaid iddyn nhw ddeall y cydbwysedd rhwng fy nhrin i fel person arall a bod yn broffesiynol.”*
*Jax, 16.*

*“Felly, gofalwr da, byddwn i'n dweud, ac yn amlwg yn ofalgar. Hawdd siarad â nhw. Gwrandäwr da. Dwi ddim yn gwybod sut i esbonio, ond eu bod nhw'n gweld pob safbwynt. Os mae hynny’n gwneud synnwyr. Ac ie, rhywun fel 'na yn ôl pob tebyg. Dangos dealltwriaeth. Efallai rhywfaint o gysur hefyd. Felly, ie, cysur…Ac efallai (saib) nid cael nifer o bobl chwaith, dim ond un person sy’n gallu dod atoch chi a siarad â chi. Ond byddwn i'n dweud eu bod nhw'n eithaf da o ran rhoi paned o de, bwyd, yr holl bethau hynny, ie. Ond i mi, yr elfen emosiynol. Mae rhai o'r staff yma'n dda iawn gyda phethau fel 'na, ond nid yw rhai ohonyn nhw cystal… dydyn nhw ddim yn gwneud y math yna o beth. Achos, dwi ddim yn hoffi mynd at bobl nac yn hoffi siarad amdano. Byddai'n well gen i pe byddai rhywun yn dod ata i a dweud, "wyt ti'n iawn?", y math yna o beth. [Cynnig] cysur. Tawelu’r meddwl. Achos yn amlwg pan fyddwch chi'n dod i mewn i ofal, mae'n lot i’w gymryd i mewn, mae’n rhywbeth mawr.”*
*Leon, 15.*

3.3.2 Mae naratifau'r bobl ifanc yn dangos neu'n cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd hyfforddiant i staff. Maen nhw am i staff ddysgu sut i’w gweld fel pobl ifanc, a bod yn ddigon medrus i roi ymateb cymesur i ymddygiadau a allai gael eu hystyried yn 'nodweddiadol' mewn cyd-destunau eraill. Maen nhw am i’r staff allu ymateb iddyn nhw mewn ffordd lle mae angen cyn lleied â phosibl o rym llafar neu gorfforol. Yn bwysig, maen nhw am i staff hyfforddedig sydd â’r sgiliau i ddeall anghenion emosiynol a sbardunau pobl ifanc, oherwydd gall hyn fod wrth wraidd eu hymddygiadau a'u hymatebion i staff a'r amgylchedd gofal.

*“Ond maen nhw'n dweud trawma, mae gwahanol bethau’n sbarduno hyn, ond dydyn nhw ddim yn dweud beth allai'r sbardunau ei olygu i bob person. Ac mae angen mwy o hyfforddiant arnyn nhw yn seiliedig ar yr unigolyn yn hytrach na'r mwyafrif. Am eu*

*bod nhw'n cael hyfforddiant sy’n seiliedig ar y mwyafrif pan nad yw llawer o'r plant hyn yn debyg o gwbl i'r mwyafrif. Rydych chi wedi mynd o leoliad i leoliad i leoliad oherwydd dydych chi ddim yn ffitio, dydych chi ddim fel y mwyafrif. Wedyn, rydych chi'n mynd i mewn i sefyllfa heb ei rheoleiddio, dydych chi dal ddim yn ffitio'r lleoliad, dydy'r bobl hyn ddim wedi'u hyfforddi o gwbl. Wedi hynny, mae'n gylch gwael o bobl yn dweud ‘dydyn ni ddim yn eich hoffi chi’, ‘allwn ni ddim gweithio gyda chi’, ac rydych chi’n teimlo'n ddiwerth, dwi wedi ceisio lladd fy hun, ‘dydyn ni ddim yn eich hoffi chi’, ‘dydyn ni ddim eisiau gweithio gyda chi’. Ac roedd yn gylch gwael iawn am amser maith… mae angen i chi ddechrau trin pob plentyn fel unigolyn, nid fel grŵp. Rydyn ni i gyd yn wahanol, dim darn o bapur ydyn ni.”*
*Gabe, 19.*

3.3.3 Maen nhw am i’r profiad o ofal a'r ymatebion a roddir iddyn nhw ganolbwyntio ar y gefnogaeth yn hytrach nag ar newid eu hymddygiad. Yn benodol, mae angen help arnyn nhw i ymdopi â'u hemosiynau a'u problemau iechyd meddwl, ac unrhyw gamau sydd eu hangen i wella eu perthnasoedd anodd gyda'u teuluoedd, neu ffyrdd o wneud synnwyr ohonyn nhw.

*“Achos mae’n bosib eu bod nhw'n newid eu hymddygiad fel eu bod yn cael mynd yn ôl i rywle, fel eu cartref gofal arferol, neu fynd yn ôl adref. Dwi'n meddwl y gallen nhw efallai geisio eu hannog i roi cyfle i’r pethau sydd yn eu lle eu helpu, fel efallai eu gweithiwr cymdeithasol neu rywun arall. Ac os nad yw hynny'n gweithio, efallai mai'r dewis olaf yw eu newid. Ond dwi'n meddwl bod angen rhoi cynnig ar ffyrdd eraill yn gyntaf. Dwi'n meddwl y dylen nhw gynnig cefnogaeth hefyd, os ydyn nhw'n meddwl bod ei hangen arnyn nhw. A cheisio eu cael nhw'n ôl i ble maen nhw'n byw efallai. Dim ond rhywun i siarad ag e, fel efallai cwnselydd da neu rywun. Neu (saib) ie. Fel efallai eu gweithiwr cymdeithasol, neu (saib) ie.”*
*Josie, 14 oed.*

3.3.4 Maen nhw am i’r staff ddeall pwysigrwydd trefn a chael addysg, hobïau ac ymgymryd â gweithgareddau eraill sy'n helpu i lenwi eu hamser. Mae angen anogaeth arnyn nhw i wneud y rhain, neu staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nhw neu fod yno gyda nhw. Maen nhw am i’r staff ddeall pwysigrwydd bwyd ac amseroedd prydau bwyd. Maen nhw eisiau bwyd iach, ac maen nhw eisiau 'danteithion' a bwyd cysur maen nhw'n gyfarwydd â nhw. Maen nhw am i’r staff ddeall eu hangen am gysylltiad â phobl, ffrindiau a theulu, a'u helpu i ddod o hyd i ffyrdd o gael hyn – yn enwedig os nad yw eu ffonau ar gael ar eu cyfer.

*“Fel, gyda hobïau a phethau, dwi'n meddwl pe byddwn i wedi dweud mod i eisiau dechrau gwau, y diwrnod wedyn mae'n debyg y byddai’r rheolwr eisoes wedi archebu rhywbeth. Ie, ac mae hi [y rheolwr] mor gefnogol ac anhygoel ac yn awyddus i chi wneud y pethau hynny. Gallwch chi ofyn iddi am rywbeth, a byddwch yn ei gael fwy nei lai’n syth.”*
*Ruby, 15.*

3.3.5 Maen nhw eisiau cartrefi sy'n debyg i gartrefi 'nodweddiadol'. Maen nhw eisiau llai o gloeon ar y drysau, dim cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gegin na'r popty, ac nid ydyn nhw eisiau llawer o bethau sefydliadol ar y waliau i’w hatgoffa nad cartref nodweddiadol yw hwn. Nid ydyn nhw eisiau i’r gofynion diogelwch fod ar draul amgylchedd a all deimlo fel cartref.

*“Yr un peth nad oeddwn i'n ei hoffi, mae'r drws bob amser ar glo. A phethau fel lluniau a drychau wedi'u sgriwio i'r wal. Ac ro’n i’n meddwl, beth yw hyn? Ac fel rydych chi'n ei gael mewn llawer o leoedd. Ac mae’n gwneud i mi feddwl, os nad ydych chi eisiau i bobl ei ddinistrio, peidiwch â'i roi i fyny o gwbl. Oherwydd, dwi ddim yn gweld y pwynt*

*mewn cloi drysau. Felly, dwi ddim yn meddwl bod hynny'n creu naws gartrefol o gwbl. Mae'n teimlo fymryn fel ein bod ni'n cael ein cloi i mewn, chi'n gwybod? Fel ein bod ni'n llythrennol mewn carchar. Fel, mae popeth yn sownd. Fel y ffaith mai dim ond drychau plastig y gallwch chi eu cael, nid gwydr go iawn. Ac er mod i'n deall hynny mewn ffordd, rwy hefyd yn meddwl bod hynny ychydig yn hurt. Achos, rwy'n meddwl pe byddech chi'n mynd i dŷ normal neu'ch tŷ chi. Fyddai hyn ddim yno o gwbl. Byddech chi'n meddwl, beth ar wyneb y ddaear? Fyddwn i ddim yn cael hynny yn fy nhŷ i. Felly, yn amlwg dwi'n deall bod angen cloi'r drws, y drws ffrynt a'r drws cefn, dwi'n deall hynny 100%. Ond nid pob drws yn y tŷ."*
*Lydia, 17*

3.3.6 Mae'r bobl ifanc eisiau cartrefi sydd mewn cymunedau, sydd ger eu ffrindiau a'u teulu, ac lle mae modd mynd i siopau, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a lleoedd i gerdded. Maen nhw eisiau cael eu lleoli mewn strydoedd 'nodweddiadol'. Dydyn nhw ddim eisiau teimlo bod yn rhaid eu lleoli ymhell o bobl a chymunedau.

*"Rydyn ni mewn cymuned o bobl yn y lleoliad hwn, lle byddem ni fel arfer ymhell iawn i ffwrdd yn y mynyddoedd neu'r coed, mewn ardaloedd bywyd gwyllt. Felly, mae gallu cael y dewis i fod yn rhan o'r gymuned a'r bobl o'ch cwmpas hefyd yn golygu bod pobl mewn gofal yn dod i fwy o gysylltiad â phobl eraill."*
*Jax, 16.*

# 4. Crynodeb a negeseuon allweddol

4.1 Mae’r canfyddiadau'n dangos bod gan bobl ifanc brofiadau cymysg o drefniadau OWR. Roedd gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc hyn safbwyntiau hynod gadarnhaol o’r trefniadau hyn gan bwysleisio pa mor bwysig y mae'r cartrefi hyn wedi bod iddyn nhw a'u lles a'u deilliannau posibl yn y dyfodol. Fe wnaethon nhw hefyd rannu rhai profiadau o ofal gwael yn y cartrefi hyn a oedd yn peri pryder. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg o'r cyfrifon hyn fod tebygrwydd rhwng y profiadau hyn o gartrefi OWR a phrofiadau o ofal cofrestredig a rheoleiddiedig. Mae'n werth pwysleisio bod y bobl ifanc a oedd â’r trefniadau OWR hyn wedi'u lleoli yn y mannau dan sylw gan fod cryn gymhlethdod mewn perthynas â’u hanghenion a'u hymddygiadau. Ac eto, er gwaethaf y lefelau uwch hyn o gymhlethdod, fe gafodd darpariaeth OWR ei disgrifio fel profiad cadarnhaol ac, mewn llawer o achosion, fe arweiniodd at newidiadau a deilliannau cadarnhaol o bwys i bobl ifanc.

4.2 O’r canfyddiadau hyn, nid yw statws trefniant cartref gofal o ran a ydyw wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru, yn ddangosydd neu’n yrrwr allweddol o brofiadau gofal o ansawdd i blant a phobl ifanc. Yn hytrach, y prif ffactorau i blant a phobl ifanc yw eu perthnasoedd â staff, a’r ymdeimlad bod y ddarpariaeth wedi’i threfnu o amgylch eu hanghenion. Am y rhesymau hyn, mae darpariaeth sydd heb ei chofrestru yn cael ei disgrifio'n hynod gadarnhaol, pan gaiff ei sefydlu'n benodol gydag anghenion unigryw plentyn mewn golwg, a'i gweithredu gan staff medrus a chyson, er gwaethaf y ffaith ei bod heb ei chofrestru. Gall y canfyddiad hwn, ynghyd â'r rhai sy'n ymwneud â'r profiadau gwael o ofal o fewn y ddarpariaeth gofrestredig, olygu bod angen ystyried y fframweithiau rheoleiddio ac arolygu ar gyfer darparu gwasanaethau cartrefi gofal i blant.

4.3 Mae pwysigrwydd staff yn thema sydd i’w gweld drwy'r holl ganfyddiadau. Mae canfyddiadau’n dangos bod angen pobl hyfforddedig a medrus ar bobl ifanc a fydd yn gwrando arnyn nhw, ac sy’n gwneud ymdrech benodol i ymgysylltu â nhw gan ystyried eu hanghenion emosiynol, cymdeithasol yn ogystal ag anghenion lles eraill. Yn anad dim, mae’r canfyddiadau’n dangos bod angen staff ar blant a phobl ifanc sy’n gallu deall eu hanghenion er mwyn gwybod sut i ymateb i’w hymddygiadau. Mae hyn yn cyflwyno negeseuon o ran yr hyfforddiant y mae staff preswyl yn ei gael a'r sgiliau a ddisgwylir gan y rhai yn y rolau hyn. Mae hefyd yn awgrymu bod angen ystyried a oes angen gwneud yn siŵr bod hyfforddiant mwy arbenigol yn cael ei roi neu ei alluogi i staff ynghylch trawma a hawliau plant.

4.4 Mae'n bwysig nodi mai profiadau pobl ifanc gyda staff asiantaeth a oedd i’w gyfrif yn bennaf am y ddarpariaeth OWR a gafodd ei hystyried yn negyddol, yn y rhan fwyaf o achosion. Mae canfyddiadau'n dynodi bod diffyg sgiliau ymhlith y gweithlu hwn a bod safon a lefel y gofal a ddarperir i blant a phobl ifanc yn peri pryder. Mae defnyddio staff asiantaeth yn rhan o ddarpariaeth OWR yn gallu achosi problemau, ac mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi negeseuon ynghylch staffio'r ddarpariaeth hon a'r oruchwyliaeth a roddir i bobl ifanc yn ystod eu hamser yn byw yn y cartrefi hyn.

4.5 Mae'n amlwg o'r canfyddiadau hyn y gallai fod problemau mewn perthynas â diwylliant 'diogelwch yn gyntaf' mewn gofal preswyl sy'n blaenoriaethu anghenion diogelu eraill dros anghenion gofal, cymorth a lles. Mae hyn yn ymwneud â’r ddarpariaeth ei hun a'r amgylchedd sy’n cael ei greu ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys lleoliad y ddarpariaeth. Mae hyn hefyd mewn perthynas â'r ymatebion a roddir i bobl ifanc ac ymateb diwylliannol sy'n annog staff i reoli ymddygiadau yn seiliedig ar risg. Mae negeseuon pwysig yma am y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion o dan fframwaith hawliau CCUHP. Mae’r canfyddiadau yn codi cwestiynau hefyd ynghylch defnyddio grym a disgyblaeth wrth ofalu am bobl ifanc. Gallai fod problemau hefyd o ran cofnodi digwyddiadau mewn cartrefi gofal sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y person ifanc yn hytrach na’r cyd-destun o amgylch y digwyddiad. Gall dulliau cofnodi o’r fath effeithio ar sut mae plant a phobl

ifanc yn cael eu hystyried gan staff newydd sy'n ymgyfarwyddo â'r person ifanc a'u hanghenion, yn ogystal â'r cyfyngiadau posibl yn y ddarpariaeth oherwydd bod darparwyr yn amharod i addasu ar eu cyfer.

# Cydnabyddiaeth

Diolch i Lywodraeth Cymru am ariannu'r astudiaeth, ac i ADSS am gomisiynu a chefnogi'r ymchwil hon – diolch yn arbennig i Jan Coles, Craig Macleod, Bec Woolley, Lewis Gwyther, Sarah Day, Rhiain Morrlle ac Audrey Somerton-Edwards.

Diolch o galon i bawb sy'n gweithio ym maes Gwasanaethau Plant ar draws Cymru a'r gofalwyr a'r rhieni a weithiodd i hwyluso a chefnogi'r bobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymchwil hon.

Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, diolch i'r holl bobl ifanc a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon. Jax, Carter, Gabe, Flo, Josie, Harvey, Lydia, Leon, Caleb, Ruby a Fred – diolch i chi am rannu eich profiadau a'ch safbwyntiau, ac am roi eich amser gwerthfawr. (Mae'r holl enwau wedi'u newid.)